# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar ansawdd addysg yn

## Ysgol Gynradd Llanelltyd
## Llanelltyd,
## Gwynedd
## LL40 2TA

**Rhif yr ysgol: 6612197**

**Dyddiad yr arolygiad: 09/02/10**

**gan**

**Alan Walters**
**79668**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/04/10**

**O dan rif contract Estyn: 1110609**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

113. Ceir amrywiaeth dda iawn o ymweliadau addysgol, er enghraifft, ymweld â theatr, canolfan bwer, capeli ac eglwysi i enwi ond rhai a daw ymwelwyr amrywiol o`r gymuned i`r ysgol er mwyn rhoi darlun defnyddiol o`u bywyd a`u gwaith. Gwna`r ysgol bob ymdrech i fanteisio ar ei chyswllt â`r gymuned i ehangu ac ymestyn y cyfleoedd dysgu mae‟n eu cynnig i`r disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar weithgareddau cwricwlaidd.

114. Mae`r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae cydberthynas aelodau`r ysgol yn gadarnhaol iawn ac mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrtais ac yn dangos parch at eu gilydd a thuag at oedolion ac ymwelwyr. Mae addoli ar y cyd yn bodloni gofynion statudol ac yn cynnig cyfleoedd i fyfyrio fel ysgol gyfan. Yn ogystal, daw arweinwyr crefyddol yn rheolaidd i arwain yr addoli. Cyflwynir negeseuon moesol yn rheolaidd yn ystod y diwrnod ysgol.

115. Mae bywyd dydd-i-ddydd yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae darpariaeth yr ysgol o ran addysg bersonol a chymdeithasol yn dda. Mae gofynion ABCh wedi`u mapio`n drylwyr ar draws cynlluniau gwaith yr ysgol a defnyddir gweithgareddau dosbarth fel amser cylch fel modd i annog disgyblion i rannu profiadau emosiynol sy`n gysylltiedig â gwahanol deimladau, tra`n gwrando`n barchus ar safbwyntiau eraill. Yn ogystal, mae`r disgyblion yn ymwybodol o ffordd o fyw iachus a bwyta`n iach. Atgyfnerthir hyn gan glybiau a sefydlwyd gan Gyngor yr Ysgol, er enghraifft, clybiau cadw`n heini, a siop ffrwythau`r ysgol sy`n rhan o`r cynllun Ysgol Iach.